# Eich Cyfrifoldebau Cyfreithiol fel Rheithiwr

Trwy fod ar y rheithgor hwn, rydych yn gwneud **GWASANAETH CYHOEDDUS** pwysig iawn. Mae hyn yn golygu bod gennych **GYFRIFOLDEBAU CYFREITHIOL** pwysig.


Fel rheithiwr, rydych chi wedi cymryd **LLW CYFREITHIOL** neu **GADARNHAU** y byddwch yn profi'r diffynnydd yn ôl y dystiolaeth rydych yn ei chlywed yn y llys **YN UNIG**.
Mae hyn yn golygu bod **TEGWCH** y treial yn dibynnu arnoch chi i ddilyn ychydig o **REOLAU CYFREITHIOL PWYSIG.** Mae'r rheolau hyn yn cael eu hesbonio yn yr Hysbysiad hwn.



Rhaid i chi **DDARLLEN** y rheolau hyn, a gwneud yn siŵr eich bod yn **DEALL** ac yn **DILYN** y rheolau drwy'r amser.
Dylech gadw'r hysbysiad hwn gyda'ch **GWŶS** bob amser tra byddwch ar Wasanaeth Rheithgor.



## Beth fyddai'n digwydd petaech chi neu unrhyw Reithiwr arall ddim yn dilyn y Rheolau hyn?




Os na fyddwch yn dilyn y rheolau yn yr hysbysiad hwn, gallwch fod yn **DIRMYGU'R LLYS** a chyflawni **TROSEDD**. Mae hyn oherwydd bod y rheolau hyn am beth allwch chi wneud a beth na allwch ei wneud fel rheithiwr yn **ORCHMYNION LLYS** sydd hefyd yn rhan o'r **GYFRAITH DROSEDDOL**. Mae'n bosib i chi gael eich erlyn am dorri rheolau'r hyn, ac os bydd y llys yn eich cael yn euog, gall arwain at ddedfryd o hyd at ddwy flynedd yn y **CARCHAR, DIRWY,** neu'r ddau.

# Y Rheolau

## Chwilio am Wybodaeth am Eich Achos







Mae'n **ANGHYFREITHLON** i chi chwilio am unrhyw wybodaeth o gwbl am eich achos ar y **RHYNGRWYD** neu'n **UNRHYW LE ARALL** yn ystod y treial.

Mae hyn yn golygu **NAD YDYCH YN CAEL** chwilio am unrhyw wybodaeth am:

- Unrhyw **UNIGOLYN** sy'n rhan o'r achos. Mae hyn yn golygu unrhyw **DDIFFYNNYDD, TYST** neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r achos gan gynnwys y **BARNWR** a'r **TIMAU CYFREITHIOL**
- y **DROSEDD** neu **LEOLIAD y DROSEDD**
- y **GYFRAITH** a'r **TERMAU CYFREITHIOL** sy'n cael eu defnyddio yn yr achos
- **GWEITHDREFNAU'R LLYS**

Mae hefyd yn **ANGHYFREITHLON** i chi ofyn i **UNRHYW UN** i **CHWILIO I CHI.**




## Straeon Newyddion am Eich Achos

Mae hyn yn golygu os ydych yn gweld neu'n clywed unrhyw straeon am eich achos yn y **NEWYDDION** hefyd, felly **PEIDIWCH Â CHYMRYD UNRHYW SYLW** ohonynt.



Mae'r holl wybodaeth y byddwch ei hangen i benderfynu am yr achos yn cael ei rhoi i'r rheithgor drwy'r **DYSTIOLAETH** y byddwch yn ei chlywed yn y **LLYS**, a'r cyfarwyddiadau mae'r **BARNWR YN EU RHOI** i'r rheithgor am y **GYFRAITH**.



## Trafod yr Achos: 2 Reol

Rhaid i bob rheithiwr ddilyn **2 REOL** o ran trafod eu hachos.
Mae un rheol yn dweud beth rydych yn cael trafod am yr achos **TRA BOD Y TREIAL YN MYND YMLAEN**. Mae'r rheol arall yn dweud beth rydych yn cael trafod am yr achos **AR ÔL I'R TREIAL ORFFEN**.



## RHEOL 1: YN YSTOD Y TREIAL

Mae hyn yn golygu o'r adeg rydych yn cymryd y llw tan fydd y barnwr yn eich rhyddhau o'r gwasanaeth rheithgor ar ddiwedd y treial.
Yn ystod y treial, **DIM OND** gyda'r **11 RHEITHIWR ARALL** ar eich rheithgor rydych yn cael trafod yr achos, a dim ond pan fydd **PAWB GYDA'I GILYDD** a bod dim perygl o gwbl y bydd rhywun yn eich clywed.




Mae hyn yn golygu **NAD YDYCH YN CAEL TRAFOD** yr achos gyda **THEULU, FFRINDIAU** nac **UNRHYW UN** arall. Mae trafod yr achos yn golygu ysgrifennu neu siarad am yr achos wyneb yn wyneb neu ar unrhyw **WEFANNAU RHWYDWEITHIO CYMDEITHASOL** fel Facebook neu Trydar, neu ar flogiau neu ystafelloedd sgwrsio ar-lein.

## RHEOL 2: PAN FYDD Y TREIAL WEDI GORFFEN

Ar ôl i'r treial orffen, a'ch bod chi ddim yn gwasanaethu ar y rheithgor ddim mwy, rydych yn **CAEL TRAFOD** yr achos gydag unrhyw un. Ond mae **UN EITHRIAD.**
Hyd yn oed ar ôl i'r treial orffen, **NID YDYCH I FOD I DRAFOD** beth gafodd ei ddweud gennych chi neu unrhyw aelod arall o'r rheithgor pan oedd y rheithgor yn yr **YSTAFELL DRAFOD** yn ceisio gwneud penderfyniad, heblaw ei fod at bwrpas archwiliad swyddogol i ymddygiad unrhyw reithiwr.





## Beth os bydd rhywun yn ceisio siarad gyda mi am yr Achos yn ystod y Treial?



Mae'n **ANGHYFREITHLON** i unrhyw un sydd ddim ar eich rheithgor **GEISIO SIARAD GYDA CHI** am yr achos yn ystod y treial, neu gesio dylanwadu ar eich penderfyniad am yr achos. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n bwysig iawn eich bod yn **DWEUD WRTH STAFF Y LLYS AR UNWAITH**. Os bydd yn digwydd y tu allan i'r llys, dylech **FFONIO'R HEDDLU**.

## Cyfrifoldeb Eich Rheithgor ar y Cyd

**RHAID I BOB UN O'R 12 AELOD AR Y RHEITHGOR** ddilyn y rheolau hyn. Mae'n rhaid i'r rheithgor **WEITHREDU FEL GRŴP** i wneud yn siŵr bod pawb ar y rheithgor yn dilyn y llw mae pob un ohonoch wedi ei gymryd i ddilyn y rheolau hyn.



## Beth rydw i'n fod i wneud os rwy'n meddwl bod rhywun wedi torri'r rheolau hyn?



Os ydych chi'n meddwl bod rhywun wedi torri'r rheolau hyn yn ystod y treial, mae'n bwysig iawn eich bod yn **DWEUD WRTH STAFF Y LLYS** am hyn **AR UNWAITH**, ond peidiwch â'i drafod gyda'ch cyd reithwyr neu unrhyw un arall.

I ddweud wrth y Llys, gallwch siarad gyda'ch **TYWYSYDD** neu **SWYDDOG RHEITHGOR** neu gallwch ysgrifennu nodyn i'r **BARNWR** a'i roi i'r tywysydd.

## Pam fod yn rhaid i mi ddilyn y Rheolau hyn?





Mae'n **DDYLETSWYDD** arnoch i **DDWEUD** am unrhyw un sy'n **TORRI'R** rheolau hyn, gan gynnwys unrhyw reithiwr. Mae'n rhaid i chi wneud hyn i wneud yn siŵr bod y treial yn un **TEG**.

Os nad ydy pob rheithiwr yn dilyn y rheolau hyn, efallai y bydd yn rhaid **STOPIO'R TREIAL**, rhyddhau'r rheithgor a dechrau'r treial eto gyda rheithgor newydd.

Bydd hyn yn achosi **PROBLEMAU** i bawb sy'n rhan o'r achos a bydd yn gwastraffu amser pawb a llawer o **ARIAN** y trethdalwyr.

## Help a chefnogaeth i chi ar unrhyw adeg

Os ydych chi'n poeni am beth i'w wneud fel rheithiwr ar unrhyw adeg, gallwch **SIARAD GYDA'R SWYDDOG RHEITHGOR** neu **ANFON NEGES AT Y BARNWR.**

**Mae'r Swyddog Rheithgor a'r Barnwr yno i'ch helpu chi i gyfawni eich rôl bwysig fel rheithiwr yn y ffordd gywir.**




## Beth os byddaf wedi cynhyrfu yn dilyn fy mhrofiad fel rheithiwr ar ôl y treial?

Pan fydd y treial wedi gorffen, os ydych chi'n **PRYDERU** am unrhyw beth mewn perthynas â'ch achos, neu os ydych chi ond eisiau **SIARAD** am sut roeddech chi'n teimlo am fod yn rheithiwr, mae **CYMORTH** ar gael. Gall eich **MEDDYG TEULU** eich helpu i ddod o hyd i wasanaethau cwnsela am ddim. Gallwch hefyd siarad â'r **SAMARIAID** ar unrhyw adeg yn eich ffordd eich hun am beth bynnag sy'n eich poeni, ni waeth pa mor fach ydyw. Gallwch eu ffonio **AM DDIM** ar **116 123** (llinell Saesneg ar agor 24 awr y dydd) neu **0808 164 1234** (llinell Gymraeg ar agor yn ddyddiol o 7pm-11pm) neu gallwch anfon **E-BOST** at: **jo@samaritans.org**

SAMARITANS
SAMARIAID

# Your Legal Responsibilities as a Juror

By serving on this jury you are fulfilling a very important **PUBLIC SERVICE**. This means you have some important **LEGAL RESPONSIBILITIES**.

As a juror you have taken a **LEGAL OATH** or **AFFIRMATION** to try the defendant based **ONLY** on the evidence you hear in court.

This means the **FAIRNESS** of the trial depends on you following a few very **IMPORTANT LEGAL RULES.** These rules are explained to you in this Notice.




You need to **READ** these rules, and make sure you **UNDERSTAND and FOLLOW** these rules at all times.

You should keep this Notice with your **SUMMONS** at all times while you are on Jury Service.




## What Would Happen If You or Any Juror Did Not Follow These Rules?




If you do not follow the rules in this Notice, you may be in **CONTEMPT OF COURT** and committing a **CRIMINAL OFFENCE.** This is because these rules about what you can and cannot do as a juror are **ORDERS OF THE COURT** and also part of the **CRIMINAL LAW**. You can be prosecuted for breaking these rules, and if you are found guilty the maximum sentence is two years in **PRISON**, a **FINE** or both.

# THE RULES

## Looking for Information About Your Case







It is **ILLEGAL** for you to **LOOK** for any information at all about your case on the **INTERNET** or **ANYWHERE ELSE** during the trial.

This means you **CANNOT LOOK** for any information about:

- Any **PERSON** involved in the case. This means any **DEFENDANT**, **WITNESS** or anyone associated with the case including the **JUDGE** and **LEGAL TEAMS**.
- The **CRIME or CRIME SCENE.**
- The **LAW** and **LEGAL TERMS** used in the case.
- **COURT PROCEDURES**.

It is also **ILLEGAL** for you to ask **ANYONE** else to **LOOK FOR YOU**.






## News Stories about Your Case

This also means that if you see or hear any stories about your case in the **NEWS** you should **NOT PAY ANY ATTENTION** to them.

All the information you will need to decide the case will be given to the jury in the **EVIDENCE** you hear **IN COURT** and the instructions on the **LAW** that the **JUDGE GIVES** to the jury.



## Discussing the Case: 2 Rules

There are **2 RULES** every juror must follow about discussing their case.
One rule tells you what you can discuss about the case **WHILE THE TRIAL IS GOING ON**.
The other rule tells you what you can discuss about the case **AFTER THE TRIAL IS OVER**.






## RULE 1: DURING THE TRIAL

This is from the moment you take the juror oath until the judge finally discharges you from serving on the jury at the end of the trial. During the trial you can **ONLY DISCUSS** the case with the **11 OTHER JURORS** on your jury and only when you are **ALL TOGETHER** and there is no risk of you being overheard**.**

This means that during the trial you **CANNOT DISCUSS** the case with **FAMILY, FRIENDS** or **ANYONE** else. Discussing the case means writing or speaking about the case in person or on any **SOCIAL NETWORKING SITES** such as Facebook or Twitter or on blogs and chat rooms.

## RULE 2: WHEN THE TRIAL IS OVER

Once the trial is over and you are no longer serving on the jury, you **CAN DISCUSS** the case with anyone. But there is **ONE EXCEPTION**.

Even after the trial is over, you **MUST NOT DISCUSS** what was said or done by you or any other member of the jury while the jury was in the **DELIBERATING ROOM** trying to reach a verdict, unless it is for the purpose of an official investigation into the conduct of any juror.




## What If Someone Tries to Speak to Me about the Case During the Trial?



It is **ILLEGAL** for anyone who is not on your jury to **TRY TO SPEAK WITH YOU** during the trial about the case or try to influence you in any way about your decision in the case. If this should ever happen it is very important that you **TELL** the **COURT IMMEDIATELY**. If it happens when you are not at court you should **CALL THE POLICE**.

## Collective Responsibility of Your Jury

**ALL 12 MEMBERS OF THE JURY** must follow these rules.

The jury **MUST ACT AS A GROUP** to make sure that everyone on the jury follows the oath you have each made to follow these rules.



## What Do I Do If I Think Any of These Rules Have Not Been Followed?



If you think that any of these rules have not been followed during the trial it is extremely important that you **TELL THE COURT** about this **IMMEDIATELY**, but do not discuss it with your fellow jurors or anyone else.

To tell the Court, you can speak with your **USHER** or **JURY OFFICER** or you can write a note to the **JUDGE** and give it to the usher.

## Why Do I Need to Follow These Rules?





It is your **DUTY** to **REPORT** any **BREACHES** of these rules by anyone, including any juror. This is necessary to ensure the trial is **FAIR.**

If every juror does not follow these rules the **TRIAL** may be **STOPPED**, the jury dismissed and the trial will have to start again with a new jury.

This will cause **PROBLEMS** for everyone involved in the case and will waste everyone's time and a lot of taxpayers' **MONEY**.

## Help and Guidance for You at Any Time

If you have any concerns about what to do as a juror at any time you can always **SPEAK WITH THE JURY OFFICER** or **SEND A NOTE TO THE JUDGE**.

**The Jury Officer and the Judge are both there to help you carry out your important role as a juror properly.**




## What If I Feel Upset About My Experience as a Juror After the Trial?

When the trial is over, if you feel **UPSET** about anything to do with your case or if you just want to **TALK** about how you felt being a juror, **HELP** is available. Your **GP** can help you find free counselling services. You can also talk to the **SAMARITANS** any day at any time you like in your own way about whatever is bothering you, no matter how small it may be. You can call them for **FREE** on **116 123** or **EMAIL** at: **jo@samaritans.org**

SAMARITANS

2018-01-CC-EW